# FFURFLEN MANYLION / INFORMATION SHEET

| | |
|---|---|
| **Teitl y Ddogfen:** | Polisi Ffioedd Dysgu ac Arholiadau |
| **Y math o ddogfen:** | Polisi |
| **Perchennog y ddogfen:** | Y Cyfarwyddwr Cyllid |
| **Uwch Gyfarwyddwr â chyfrifoldeb:** | Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Pwrpas:** | Amlinellu polisi ffioedd dysgu ac arholiadau'r Grŵp |
| **Cylch adolygu:** | Yn flynyddol |

| **Sut mae'n cysylltu â'r Cynllun Strategol (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):** | |
|---|---|
| Ein lle yn y gymuned / Cyfleoedd i ddysgwyr a llwyddiant dysgwyr / Ein rôl mewn Cymru gynaliadwy | |
| **Sut mae'n cysylltu â'r Gofrestr Risg (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):** | |
| STR0001 Diffyg llywodraethu effeithiol.<br>STR0003 Nid yw'r Grŵp yn cefnogi'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac yn cyflawni ei blaenoriaethau ac i'r gwrthwyneb.<br>STR0006 Pryderon ynghylch y gallu i sicrhau recriwtio nifer digonol o fyfyrwyr.<br>STR0013 Ni chynhelir Sefydlogrwydd Ariannol, gan leihau gallu'r sefydliad i reoli ei weithgarwch yn effeithiol.<br>STR0016 Effaith datblygiadau strategol megis MEDR ar incwm Addysg Uwch.<br>STR0017 Diffyg amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio'n negyddol ar ddirnadaeth dysgwyr, gweithwyr a rhanddeiliaid am GLlM. | |
| **Sut mae'n cysylltu â'n gwerthoedd (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):** | Cydraddoldeb / Ymddiriedaeth / Tegwch / Gonestrwydd / Uchelgais |

| **Rhestr Wirio'r Broses Gymeradwyo - dileer os nad yw'n berthnasol (cyfrifoldeb y Perchennog):** | **Dyddiad:** |
|---|---|
| • Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad cychwynnol â staff (ELD) | Amherthnasol |
| • Y drafft cyntaf wedi'i anfon i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar gyfer pythefnos o ymgynghoriad cychwynnol (AAH) | Amherthnasol |
| • Yr Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau | 27/05/2025 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Tîm Strategol | 19/05/2025 |

| | |
|---|---|
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol) | Amherthnasol |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd ac Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol) | Amherthnasol |
| • Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol / SHE | Amherthnasol |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau* | 19/05/2025 |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd | 26/05/2025 |
| • Cyfieithu'r Polisi a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp | 01/09/2025 |

| **Dyddiad** | **Adran** | **Disgrifiad o'r newidiadau i'r Polisi** |
|---|---|---|
| Mis Mai 2025 | Drwy'r ddogfen | Wedi dileu'r cyfeiriadau at brosesau mewnol ynghylch sut i gyfrifo ffioedd ac ati. - wedi lleihau'r polisi yn gyffredinol gan gyfeirio darllenwyr at ffioedd a ddyfynnir ar y wefan yn hytrach na'u manylu yn y ddogfen hon |
| Mis Mai 2025 | Addysg Bellach | Cynnydd arfaethedig yn y Ffi Adnoddau o £25 i £30. Nid yw'r ffi wedi'i chynyddu ers 10 mlynedd |
| Mis Mai 2025 | Addysg Uwch | Newidiadau i ffioedd llawn amser a rhan-amser ar gyfer ymgeiswyr newydd yn 2025/26 |
| Mis Mai 2025 | Addysg Uwch - bwrsariaethau | Newid i fwrsari ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, sy'n adlewyrchu'r newid yn y cynllun Ffioedd a Mynediad |

## 1 Cyflwyniad

Lluniwyd y polisi hwn yn unol â'r Amodau Ariannu a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr addysg bellach a chan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer dysgwyr addysg uwch, a'r rheoliadau a bennwyd gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) ac unrhyw Gyrff Dyfarnu eraill a ddefnyddia'r Grŵp ac sydd y tu allan i gylch gwaith y JCQ. Gall yr amodau hyn newid.

Mae'n bosib y bydd amodau gwahanol yn berthnasol i ddysgwyr tramor yn ogystal â dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau proffesiynol, masnachol neu heb eu hachredu, rhaglenni a gyllidir yn allanol neu raglenni cyswllt ag ysgolion.

## 2 Amodau Cyffredinol sy'n ymwneud â Ffioedd

Bydd ffioedd cyrsiau'n cael eu hadolygu'n flynyddol ac maent ar gael ar wefan y Grŵp fel rheol. Codir tâl am bob blwyddyn o astudio a wneir yn y sefydliad, oni nodir yn wahanol ym manylion y cwrs unigol.

Bydd y Grŵp yn gwneud ei orau i sicrhau y caiff cyrsiau ac arholiadau eu cynnal ar amser ac yn unol â'r amserlen. Ni roddir ad-daliad pe bai'n rhaid canslo gwersi oherwydd digwyddiad natur nad oedd yn bosib ei ragweld neu ymyriad gan drydydd parti er mwyn sicrhau diogelwch staff a dysgwyr. Os bydd angen canslo arholiadau er mwyn sicrhau diogelwch dysgwyr a staff, aildrefnir yr arholiadau, lle bo'n briodol, cyn gynted ag y bo modd a bydd y ffioedd yn cael eu cario ymlaen.

Os bydd y Grŵp yn canslo cwrs, rhoddir ad-daliad llawn.

Cyn eu cofrestru, rhaid cyfeirio at y Gwasanaethau i Ddysgwyr bob dysgwr sy'n iau na 16 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd. Noder, 1 Medi i 31 Awst yw dyddiadau'r flwyddyn academaidd.

Rhaid talu ffioedd wrth gofrestru oni bai fod y Grŵp wedi cytuno i'r gwrthwyneb. Bydd unrhyw ddysgwr sydd wedi cofrestru ar gwrs, ond nad yw'n talu'r ffioedd, yn cael ei wahardd rhag mynychu'r cwrs a rhag sefyll yr arholiad.

Mae ffioedd arholiadau wedi'u cynnwys yn y ffioedd llawn amser ond mae'r ffioedd hyn yn ychwanegol yn achos cyrsiau rhan-amser. Bydd y tâl godir am ailsefyll unrhyw arholiadau ychwanegol yn cael eu hasesu ar sail unigol. Pe bai dysgwyr ddim yn dod i'w harholiadau (heb roi rhybudd ymlaen llaw), bydd gofyn iddynt dalu'r ffi arholiad. Yn achos cyrsiau rhan-amser, nid oes modd cael ad-daliad ar ôl i'r corff arholi dderbyn y ffi arholiad, oni bai bod y Grŵp yn canslo'r arholiad oherwydd rhesymau diogelwch.

Caiff ffioedd arholiadau eu pennu'n unol â'r rhai a godir gan gyrff dyfarnu, gan ychwanegu tâl gweinyddu.

Efallai y bydd rhai cyrsiau'n gofyn i ddysgwyr dalu ffioedd ychwanegol am gostau megis ffioedd aelodaeth Sefydliad Dyfarnu, ffioedd stiwdio neu gostau gwisg. Bydd y rhain wedi'u nodi'n glir yn y wybodaeth am y cwrs sydd ar gael ar wefan y Grŵp.

Gellir talu ffioedd dysgu a ffioedd arholiadau gydag:

- Arian parod
- Cerdyn debyd neu gerdyn credyd
- Anfoneb gyda llythyr awdurdodi neu Archeb Brynu gan gyflogwr
- Cyllid Myfyrwyr Cymru/Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn achos cyrsiau Addysg Uwch

Mae'r Grŵp yn symud fwyfwy tuag at gofrestru ar-lein gyda'r cyfleuster i dalu ffi'r cwrs ar-lein fel rhan o'r broses gofrestru.

***Rhandaliadau***

Pan fydd ffioedd dysgu unigolyn yn fwy na £100, mae'n bosibl eu talu mewn rhandaliadau drwy archeb sefydlog. Mae'r amodau a ganlyn yn berthnasol:

- Rhaid derbyn y tâl yn llawn cyn diwedd y cwrs neu bob blwyddyn academaidd os yw'r cwrs yn para

mwy na blwyddyn.
- Rhaid talu blaendal o 20% fan lleiaf ac uchafswm o 10 rhandaliad.
- Os bydd dysgwr yn peidio â thalu yn unol â'r amserlen rhandaliadau, bydd yn rhaid iddo dalu'n llawn am y cwrs y bydd yn ei ddilyn wedi hynny.
- Os bwriedir talu fesul rhandaliadau, rhaid llenwi ffurflen archeb sefydlog wrth gofrestru.
- Mae'r taliadau a'r ad-daliadau sy'n berthnasol i rywun sy'n gadael cwrs yn gynnar wedi'u nodi yn yr adrannau Addysg Bellach ac Addysg Uwch isod ac maent hefyd yn berthnasol os telir mewn rhandaliadau.

Ni chaiff ffioedd na blaendaliadau eu trosglwyddo'n awtomatig o un tymor/blwyddyn/unigolyn i un arall. Dylid trafod trosglwyddiadau o'r fath gyda'r Adran Gyllid neu'r Adran Arholiadau.

Mae'r Grŵp yn cadw'r hawl i wrthod cofrestru myfyriwr ar gwrs neu i sefyll arholiad os oes gan y myfyriwr hwnnw arian yn ddyledus i'r Grŵp neu os nad yw wedi talu'r ffioedd cysylltiedig. Gellir ei atal rhag defnyddio cyfleusterau'r Grŵp (yn cynnwys TG) hefyd os na dderbynnir tâl.

Mae'r Grŵp yn cadw'r hawl i drosglwyddo unrhyw ddyled heb ei thalu i asiantaeth casglu dyledion trydydd parti. Ceidw'r Grŵp yr hawl i godi 'tâl gweinyddol' ychwanegol pan na chaiff ffioedd eu talu fel y cytunwyd gan ddysgwyr. Codir ffi o £30 ynghyd ag unrhyw gostau adennill dyledion. Mewn achosion unigol, gall y Grŵp benderfynu hepgor y ffi hon, os derbynnir y tâl yn ddi-oed.

## 3 Dysgwyr Addysg Bellach

### 3.1 Dysgwyr Addysg Bellach llawn amser

Ni chodir ffi ddysgu ar ddysgwyr llawn amser sy'n dilyn Rhaglen Ddysgu neu raglen ailsefyll TGAU a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac ni chodir ffi arholiad arnynt y tro cyntaf y byddant yn sefyll ac yn ailsefyll yr arholiad. Bydd y tâl godir am ailsefyll unrhyw arholiadau ychwanegol yn cael ei asesu ar sail unigol a byddant yn dibynnu ar y ffi a godir gan y bwrdd arholi, ynghyd â ffi weinyddol o £10.

Ni chaiff Sefydliadau Addysg Bellach godi tâl am ffioedd dysgu ar ddysgwyr sy'n iau na 19 oed ar neu cyn 31 Awst yn y flwyddyn academaidd berthnasol (1 Medi - 31 Awst) ac sy'n dilyn cyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd pob dysgwr Addysg Bellach llawn amser yn talu ffi adnoddau bob blwyddyn. Bydd y ffi hon yn talu am gost cynhyrchu cardiau adnabod ac am argraffu hyd at nifer penodol o ddalennau bob tymor. Bydd myfyrwyr sy'n gymwys i gael cymorth ariannol gan drydydd partïon yn cael ad-daliad am y ffi adnoddau gan y ffynonellau hynny. Bydd y ffi yn £30 ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.

Oni bai ei fod wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw neu'n cyflwyno nodyn meddyg, bydd dysgwr llawn amser, a gofrestrwyd i sefyll arholiad ond na safodd yr arholiad, yn gyfrifol am ad-dalu'r ffi i'r Grŵp. Mae hyn yn berthnasol yn achos arholiadau ysgrifenedig neu rai a gynhelir ar-lein.

### 3.2 Dysgwyr Addysg Bellach rhan-amser

Mae'n rhaid i ddysgwyr Addysg Bellach rhan-amser dalu ffioedd dysgu, ffioedd arholiad ac unrhyw ffioedd perthnasol eraill, lle bo hynny'n briodol.

Pennir ffioedd dysgu rhan-amser ar sail cwrs unigol, yn seiliedig ar gostau'r cwrs a gyfrifir gan ddefnyddio model costio safonol.

Bydd yr holl ffioedd sy'n gysylltiedig â'r cwrs ym manylion y cwrs perthnasol ar wefan y Grŵp a/neu'r Prosbectws Rhan-Amser.

Ni fydd gofyn i ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed ar ddechrau eu cwrs rhan-amser dalu ffi ddysgu, ond bydd gofyn iddynt dalu'r ffi arholiad ac unrhyw ffioedd eraill perthnasol. Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr o dan 16 oed ar gyrsiau rhan-amser yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac felly bydd gofyn iddynt dalu'r ffi am y cwrs, ac ni chynigir consesiynau'n gyffredinol.

Bydd y tâl a godir am ailsefyll unrhyw arholiadau ar sail disgresiwn, ac yn cael eu hasesu'n unigol.

Ni fydd dysgwyr sy'n dilyn nifer o gyrsiau rhan-amser yn cael eu hystyried yn fyfyrwyr llawn amser.

## 3.3 Amodau sy'n gysylltiedig â Ffioedd Dysgwyr Addysg Bellach

### *3.3.1 Consesiynau ar Ffioedd Dysgwyr Rhan-amser*

Dysgwyr rhan-amser yn unig sydd â hawl i dderbyn consesiynau ar eu ffioedd. Ceir consesiwn o 50% os yw'r myfyriwr yn gallu dangos ei fod yn derbyn Credyd Cynhwysol.

Efallai na fydd consesiynau ffioedd yn berthnasol i bob cwrs. Deiliad y gyllideb sy'n penderfynu ar hyn er mwyn diwallu anghenion economaidd ac anghenion y farchnad.

Adolygir consesiynau ffioedd yn flynyddol.

### *3.3.2 Ad-dalu Ffioedd oherwydd penderfyniad i adael*

Pan fydd dysgwyr yn gadael cwrs Addysg Bellach rhan-amser sy'n para mwy na 10 wythnos yn ystod y PYTHEFNOS cyntaf (neu am rannau o hyd at ddwy wythnos), gellir ad-dalu'r ffi ddysgu'n llawn, wedi tynnu ffi gweinyddu o £30 ac unrhyw gostau a ddaeth i ran y Grŵp na ellir eu had-dalu.

Gallai dysgwyr sy'n gadael cwrs sy'n para mwy na 10 wythnos ar ôl mynychu am hyd at BEDAIR WYTHNOS gellir ad-dalu 50% o'r ffi dysgu, wedi tynnu ffi gweinyddu o £30 ac unrhyw gostau a ddaeth i ran y Grŵp na ellir eu had-dalu.

Bydd gan ddysgwyr sy'n gadael cwrs Addysg Bellach rhan-amser sy'n para mwy na 10 wythnos yn ystod y PYTHEFNOS cyntaf yr hawl i ad-daliad o 50%, wedi tynnu ffi gweinyddu o £30 ac unrhyw gostau a ddaeth i ran y Grŵp na ellir eu had-dalu.

Ni ad-delir ffioedd dysgu os bydd y myfyriwr wedi mynychu am BEDAIR WYTHNOS neu fwy.

Mae'n bosibl y caiff y myfyriwr ad-daliad am y ffioedd arholiad os nad ydynt wedi cael eu talu i'r Corff Dyfarnu yn barod.

Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, ac eithrio'r uchod, y rhoddir ad-daliadau llawn.

## 3.4 Dysgu Seiliedig ar Waith

Ni chodir ffioedd ar ddysgwyr sy'n astudio dan Raglen Brentisiaeth Llywodraeth Cymru oni bai bod y cymhwyster y ceisir amdano y tu allan i'w Rhaglen Astudio neu os na chwblheir fframwaith cyfan. Yn achos unigolion sy'n astudio cymwysterau NVQ yn unig, gweler adran 7 isod.

Caiff dysgwyr ailsefyll arholiad am ddim unwaith. Bydd y tâl godir am ailsefyll unrhyw arholiadau ychwanegol yn cael eu hasesu ar sail unigol. Os na fydd dysgwr yn bresennol mewn arholiad a drefnwyd, ac os na fydd wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw na chael nodyn gan feddyg neu nodyn cyfatebol, codir arno ffi a bennir gan y corff arholi, yn ogystal ag unrhyw gostau gweinyddu perthnasol (ffi weinyddol o £10 fel isafswm).

## 3.5 Cyrsiau Cyfrif Dysgu Personol (CDP)

Nid oes ffioedd i'w talu am gyrsiau CDP. Os yw dysgwr wedi talu ffi am gwrs rhan-amser ac yna'n profi ei fod yn gymwys i gael cyllid CDP am y cwrs hwnnw, bydd gan y dysgwr hawl i gael ad-daliad llawn am unrhyw ffioedd a dalwyd.

## 4 Dysgwyr Addysg Uwch

### 4.1 Cyffredinol

Codir ffioedd dysgu blynyddol ar ddysgwyr yn unol â'r Cynllun Ffioedd a Mynediad Addysg Uwch a gymeradwywyd gan CCAUC ar gyfer cyrsiau a gyllidir yn uniongyrchol. Y ffi flynyddol ar gyfer 2025/26 yn achos cyrsiau a gyllidir yn uniongyrchol fydd £8,800 y flwyddyn i ddysgwyr sy'n dechrau astudio ar gwrs Addysg Uwch llawn amser. Fel y nodir yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad, mewn blynyddoedd sydd i ddod, gall ffioedd y rhai a fydd yn dechrau astudio yn 2025/26 godi'n unol â chwyddiant. Yn achos myfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau cyn 2025/26, bydd ffi'r cwrs yn parhau i fod yn £8,300.

Rhaid i fyfyrwyr Addysg Uwch llawn amser sy'n derbyn cymorth ariannol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru/Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ddarparu copi o'u hysbysiad ariannol wrth gofrestru. Dylai dysgwyr wneud cais am gyllid mewn da bryd. Mae'n bosibl y gall myfyrwyr o Gymru gael benthyciad ffioedd dysgu gwerth £9,535 y flwyddyn i dalu am eu ffioedd dysgu. Dim ond pan fydd yn ennill mwy na swm penodol (sef £28,470 y flwyddyn ar hyn o bryd) y bydd y dysgwr yn dechrau ad-dalu'r benthyciad. Os nad yw'r ffioedd yn cael eu talu drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru/y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, rhaid i'r dysgwr dalu'r ffioedd hyn yn llawn neu drwy randaliadau.

Gall ffioedd cwrs llawn amser sydd dan ryddfraint neu is-gontract gan Brifysgol arall gael eu pennu gan y Brifysgol honno. Golyga hyn fod nifer o ffioedd gwahanol ar gyfer cyrsiau Prifysgol a fydd yn cael eu cynnig gan Grŵp Llandrillo Menai yn 2025/26. Mae gan bob prifysgol hefyd ei chynllun bwrsariaeth ei hun sy'n berthnasol i fyfyrwyr ar y cyrsiau hyn. I gael manylion, holwch diwtor academaidd y maes astudio.

### 4.2 Ad-daliadau/Newidiadau i Ffioedd oherwydd penderfyniad i adael

Mae'r Grŵp yn cydnabod y gall dysgwyr addysg uwch llawn amser benderfynu peidio â pharhau â'u hastudiaethau am nifer o resymau nad oeddent o bosibl wedi dod i'r amlwg pan oeddent yn cofrestru. O ganlyniad, bydd gan ddysgwyr sy'n gadael o fewn PYTHEFNOS i ddechrau eu cwrs hawl i dderbyn ad-daliad llawn os nad oes unrhyw dystiolaeth o dwyll neu weithrediadau anghyfreithlon neu o unrhyw ddyledion heb eu talu i'r Grŵp.

Os bydd y myfyriwr yn gadael ar ôl y pythefnos cyntaf, bydd ei gyfrifoldeb i dalu'r ffioedd yn dibynnu ar ei statws o ran ffioedd (dysgwr o Brydain, yr Undeb Ewropeaidd neu ddysgwr rhyngwladol), y dyddiad gadael a'r sefydliad y mae'r cwrs yn gysylltiedig ag ef. Dyma ganllaw i ddangos lleiafswm yr atebolrwydd.

| **Dyddiad gadael** | **Canran y ffi sy'n ddyledus** |
|---|---|
| | |
| Cyn diwedd Tymor 1 | 25% |
| Yn ystod Tymor 2 | 50% |
| Yn ystod Tymor 3 | 100% |

Cyfrifoldeb y dysgwr yw gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei dynnu oddi ar y cwrs a rhoi gwybod i Gyllid Myfyrwyr Cymru. Gan fod y ffi a godir yn dibynnu ar ddyddiad olaf presenoldeb y dysgwr, dylid rhoi sylw arbennig i'r dyddiad gadael. Ni fydd gan ddysgwyr sydd wedi derbyn benthyciad ffioedd dysgu hawl i dderbyn ad-daliad gan y Grŵp. Bydd y Grŵp yn rhoi gwybod i Gyllid Myfyrwyr Cymru/Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn newid benthyciad ffi ddysgu'r myfyriwr i gyd-fynd â hynny.

### 4.3 Ffioedd heb eu talu

Ni fydd dysgwyr Addysg Uwch llawn amser sydd heb dalu eu ffioedd yn cael symud ymlaen i gam nesaf eu cwrs, derbyn dyfarniadau na dod i seremonïau graddio tan fydd y dyledion i gyd wedi'u talu.

### 4.4 Bwrsarïau

Yn y tabl isod, rhestrir y bwrsarïau a fydd ar gael yn 2025/26. Er mwyn annog a chynorthwyo dysgwyr Addysg Bellach y Grŵp i symud ymlaen i Addysg Uwch, telir bwrsari o £1,000 i unrhyw ddysgwr a fydd yn symud ymlaen yn syth o ddarpariaeth Addysg Bellach lefel 3 yn y Grŵp i gwrs Addysg Uwch llawn amser i israddedigion yng Ngrŵp Llandrillo Menai.

Bydd y bwrsari am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau, ynghyd â'r bwrsarïau a delir i fyfyrwyr sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn y Gyntaf ac i Blant sy'n Derbyn Gofal, a byddant ar gael yn flynyddol.

**Myfyrwyr ar flwyddyn gyntaf eu hastudiaethau**

| Bwrsari | Swm | Meini Prawf | Dyddiad talu |
|---|---|---|---|
| Bwrsari Dilyniant Uniongyrchol Grŵp Llandrillo Menai | £1,000 | Pob myfyriwr sy'n symud ymlaen yn syth o raglen Lefel 3 i gwrs Addysg Uwch llawn amser yng Ngrŵp Llandrillo Menai | 100% ym mis Mai |
| Bwrsari'r Gymraeg (Addysg Uwch) | £300 | Myfyrwyr ar gyrsiau penodol sy'n cwblhau cyfran sylweddol o'u gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg | 100% ym mis Mai |
| Bwrsari Ardal Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | £400 | Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs AU llawn amser ac sy'n byw mewn ardal sydd â chod post mewn ardal ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | 50% ym mis Ionawr a 50% ym mis Mai |
| Bwrsari Plant/Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal | £1,000 | Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs Addysg Uwch llawn amser ac sy'n Blant/Bobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal | 50% ym mis Ionawr a 50% ym mis Mai |

**Myfyrwyr ar flwyddyn astudio ddilynol**

| Bwrsari | Swm | Meini Prawf | Dyddiad talu |
|---|---|---|---|
| Bwrsari'r Gymraeg (Addysg Uwch) | £300 | Myfyrwyr ar gyrsiau penodol sy'n cwblhau cyfran sylweddol o'u gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg | 100% ym mis Mai |
| Bwrsari Ardal Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | £400 | Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs Addysg Uwch llawn amser ac sy'n byw mewn ardal sydd â chod post mewn ardal ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | 50% ym mis Chwefror a 50% ym mis Mai |
| Bwrsari Plant/Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal | £1,000 | Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs Addysg Uwch llawn amser ac sy'n Blant/Bobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal | 50% ym mis Ionawr a 50% ym mis Mai |

Un o nodau Bwrsari'r Gymraeg yw annog myfyrwyr i ddilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac wrth gynllunio'r bwrsari hwn sydd bellach yn cael ei gynnig yn flynyddol, ystyriwyd ei effaith ar y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Myfyrwyr Addysg Uwch Rhan-amser**

Caiff ffioedd rhan-amser eu pennu'n flynyddol. Yn sgil costau cynyddol ac er mwyn i ffioedd rhan-amser gyd-fynd yn agosach a ffioedd amser llawn, mae'r gost am fodiwl 10 credyd i ddysgwyr newydd yn 2025/26 wedi cynyddu i £450 yn gyffredinol. Mae rhai cyrsiau penodol yn amrywio o'r swm hwn, ac mae manylion llawn ar gael ar dudalen manylion y cyrsiau penodol ar wefan y Grŵp. Fel ag yn achos ffioedd llawn amser, gall ffioedd

rhan-amser gynyddu'n unol â chwyddiant yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Bydd ffioedd y dysgwyr yn daladwy fel a ganlyn:

| Dyddiad | Canran y ffi sy'n ddyledus |
|---|---|
| Cyn diwedd Tymor 1 | 25% |
| Yn ystod Tymor 2 | 50% |
| Yn ystod Tymor 3 | 100% |

Os yw cyflogwr yn talu, rhaid i'r dysgwr ddangos llythyr/ffurflen archebu gan y cyflogwr i gadarnhau hyn. Yna bydd y cyflogwr yn cael anfoneb am y ffi.

## 5 Dysgwyr Rhyngwladol

Rhaid i ddysgwyr rhyngwladol sydd angen fisa dalu blaendal o 25% cyn gwneud cais am fisa.

Rhaid i Ddysgwyr Rhyngwladol dalu eu ffioedd yn llawn cyn i'r cwrs ddechrau. Ni fydd gostyngiad yng nghost ffioedd os dechreuir ar y cwrs yn hwyr neu os gadewir y cwrs yn gynnar.

Rhoddir ad-daliad os caiff fisa myfyriwr neu ei hawl mynediad ei wrthod ac os caiff copi o'r llythyr gwrthod ei anfon i'r Grŵp. Mae ad-daliadau'n ddarostyngedig i dalu ffi weinyddu o £30.

Rhaid i'r dysgwr dalu unrhyw dâl a godir am drosglwyddiad banc.

**FFIOEDD RHYNGWLADOL GLLM, MIS MEDI 2025/26**
**Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffioedd am flwyddyn academaidd**

| Rhaglen | Ffioedd Rhyngwladol GLlM i fyfyrwyr a dderbynnir o fis Medi 2025 ymlaen |
|---|---|
| Lefel A | £7,000 |
| Diplomâu Galwedigaethol | £7,000 |
| Llwybr/Mynediad i AU/Sylfaen | £7,000 |
| Gradd Sylfaen/BA | £9,000 |
| Saesneg llawn amser | £6,250 (£190 yr wythnos, 15-21 awr yr wythnos) |

## 6 Cyrsiau Proffesiynol/Cyrsiau Byr i Gyflogwyr

**Ffioedd Cyrsiau Proffesiynol/Cyrsiau Byr i Gyflogwyr**
Caiff ffioedd dysgu'r cyrsiau hyn eu pennu i gystadlu â sefydliadau eraill ac amodau'r farchnad. Ni fydd achosion o beidio â chodi tâl neu gynlluniau rhandaliadau'n berthnasol yn achos y cyrsiau hyn. Ychwanegir TAW i'r ffioedd yn achos y cyrsiau hyn.

**Ad-dalu Ffioedd Cyrsiau Byr i Gyflogwyr yn sgil peidio â mynychu neu ganslo'n hwyr**

Bydd ad-dalu ffioedd os na fydd dysgwyr yn mynychu neu os byddant yn canslo o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad dechrau'r cwrs, yn ôl disgresiwn deiliad y gyllideb yn y maes dan sylw, ac os caniateir ad-daliad, codir tâl gweinyddol o 25%.

## 7 Cyrsiau NVQ tu allan i'r contract Dysgu Seiliedig ar Waith

Mae'r ffioedd ar gyfer cyrsiau NVQs a ddarperir y tu allan i'r Contract Dysgu Seiliedig ar Waith fel a ganlyn ar

gyfer 2025/26:

- Lefel 2 nad yw'n Flaenoriaeth £250 (neu'n is, gyda chytundeb, lle profwyd ei fod yn hyfyw)
- Lefel 3 nad yw'n Flaenoriaeth £250 (neu'n is, gyda chytundeb, lle profwyd ei fod yn hyfyw)
- Lefel 2 £750
- Lefel 3 £1,000
- Lefel 4 £1,250
- Lefel 5 £1,500

Bydd unrhyw amrywio o'r lefelau ffioedd uchod yn ôl disgresiwn deiliad y gyllideb a bydd wedi'i gytuno cyn i'r cwrs ddechrau.

**Atodiad 1 - Y Broses o ran Ailsefyll Arholiadau**

Staff y Gofrestrfa fydd yn trefnu'r holl arholiadau ar-lein. Cyn y gellir trefnu iddynt ailsefyll eu profion neu arholiadau, rhaid i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen Cais am Ailsefyll Arholiad atodedig a'i chyflwyno, gyda thaliad lle bo angen, i unrhyw un o Swyddfeydd Cyllid neu Dderbynfeydd y Grŵp.

Rhaid trefnu bod dysgwyr sydd am ailsefyll arholiad yn cael dwy wythnos waith lawn i ymgymryd â dysgu ychwanegol cyn ailsefyll yr arholiad hwnnw. Rhaid i staff addysgu ddeall bod hyn yn ofynnol pan fyddant yn gwneud ceisiadau am brofion yn agos at ddiwedd y flwyddyn academaidd, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddysgwr sydd wedi methu yn cael amser i roi cynnig arall ar ennill eu cymhwyster.

Rhaid i'r dysgwr lenwi'r ffurflen Cais am Ailsefyll Arholiad atodedig yn llawn a rhaid i'r tiwtor ei llofnodi i gadarnhau bod yr ailsefyll yn ddilys ac y gellir codi tâl amdano. Wedyn, cyn y gellir eu cofrestru ar gyfer yr arholiad, lle bo angen, bydd gofyn i'r dysgwyr dalu'r ffi ailsefyll briodol mewn da bryd.

**Marcio papurau arholiad**
Bydd yn rhaid i ddysgwyr sydd am i'w gwaith gael ei ail-farcio dalu ffioedd y corff arholi. Bydd y Coleg yn gwneud cais am yr ail-farcio cyn gynted ag y telir y tâl priodol.

**Gwybodaeth bellach**
I gael rhagor o wybodaeth am gynnal Arholiadau ac i gael rhestr o aelodau'r Tîm Arholiadau, gweler y ffeil arholiadau ar y deilsen arholiadau a MIS ar Borth y Grŵp.

**CAIS I AILSEFYLL ARHOLIAD / APPLICATION FOR EXAM RESIT**

Cwblhewch y ffurflen yma i wneud cais i ailsefyll yn unig os gwelwch yn dda / Please complete this form to request resits only

| **MANYLION Y MYFYRIWR / STUDENT DETAILS:** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw Llawn / Full Name: | | Rhif ID / ID No: | |
| Llofnod y Myfyriwr / Student Signature: | | Dyddiad / Dyddiad: | |

| **MANYLION YR AILSEFYLL / RESIT DETAILS:** | | | |
|---|---|---|---|
| Cod y Cwrs / Course Code: | | Teitl y Cwrs / Course Title: | |
| Bwrdd Arholi / Awarding Body: | | Rhif y Pwnc/Cynllun / Pwnc/Scheme No: | |
| *Cod Cyfnewid / *Cash-in Code | | *Pris Cyfnewid / *Cash-in Price: | £ |

*Arholiadau TAG yn unig / * GCE Exams only

| Dyddiad Arholiad (os ydych yn gwybod) / Exam Date (if known): | Ticiwch fel y bo'n addas / Tick as appropriate | | Cod yr Uned / Unit Code: | Pris yr Uned / Unit Price: |
|---|---|---|---|---|
| | Ar-lein / Online | Ar bapur / Written | | |
| | | | | £ |
| | | | | £ |
| | | | | £ |
| | | | | £ |
| | | | Cyfanswm y gost / Total Cost: | £ |

| Enw'r Tiwtor / Tutor's Name: | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod y Tiwtor / Tutor's Signature: | | Dyddiad / Date: | |

**CANLLAWIAU:**

Llenwch y ffurflen hon, gan roi eich manylion chi a manylion yr unedau yr hoffech eu hailsefyll. Ar ôl ei llenwi, ewch â'r ffurflen at eich tiwtor pwnc i'w chymeradwyo. **NODWCH: Ni chaiff y ffurflen hon ei phrosesu heb gymeradwyaeth eich Tiwtor Personol/Tiwtor Pwnc.** Cyflwynwch y ffurflen wedi ei chymeradwyo ynghyd â chyfanswm y ffioedd sy'n daladwy i'r Swyddfa Gyllid. Ar ôl derbyn y taliad, bydd yr Adran Gyllid yn cyflwyno'r ffurflen hon, ynghyd â'r dderbynneb, i'r Adran Arholiadau.

**GUIDANCE NOTES:**

Complete this form with your details and details of the units you intend to resit. Present the form to your subject tutor for approval. **NOTE: This form will not be processed without your Personal Tutor / Subject Tutor approval.** Present the approved form along with the total fees payable to the Finance Department. Once payment is completed and authorized, Finance will pass this form to the Exams Department.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 27/05/2025 |
| **Cymeradwywyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses? | Ni chredir y bydd y polisi hwn yn rhoi unrhyw grwpiau a warchodir dan anfantais. Mae'r polisi'n berthnasol i bob dysgwr ac mae'r iaith sydd wedi'i chynnwys yn y polisi yn niwtral o ran rhywedd. | Bydd ffioedd cwrs 2025/26 yn daladwy adeg cofrestru ar-lein. Efallai y bydd angen rhoi cymorth i unigolion gyda hyn neu wneud trefniadau talu amgen os nad oes gan unigolyn gysylltiad rhyngrwyd i wneud ei daliad ar-lein. |
| Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses? | Gall y rhai sydd ag anfantais gymdeithasol-economaidd elwa o'r polisi oherwydd ystyried taliadau ar rai agweddau (e.e. asesiadau ailsefyll TGAU neu'r Rhaglen Ddysgu, adennill cost cerdyn adnabod myfyriwr, consesiynau) ar sail bob achos yn unigol. Pan fydd ffioedd unigolyn yn fwy na £100, mae'n bosibl eu talu mewn rhandaliadau, sy'n cynyddu'r mynediad i gyfleoedd dysgu.<br><br>Gall consesiynau i'r ffioedd fod ar gael i ddysgwyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.<br><br>Yn ogystal, mae bwrsarïau Addysg Uwch ar gael i ddysgwyr o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a Phlant sy'n Derbyn Gofal. | |
| A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da? | Ydi. Mae'r polisi'n ceisio gwella mynediad i addysg i unigolion sy'n wynebu amddifadedd economaidd a chymdeithasol. | |
| A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon? | Nid os cânt eu gweithredu fel y disgrifiwyd a, lle mae ffioedd cwrs a chonsesiynau yn cael eu cyflwyno yn ôl disgresiwn deiliad y gyllideb, nad yw'r penderfyniadau hyn yn dangos rhagfarn ac yn rhoi dysgwyr dan anfantais. | Bydd adolygu'r ffioedd cwrs a'r consesiynau a roddwyd yn ceisio lleihau'r risg o benderfyniadau annheg neu benderfyniadau sy'n dangos tuedd.<br><br>Dylid rhoi canllawiau i ddeiliaid cyllidebau i sicrhau |

| | | |
|---|---|---|
| | | nad yw penderfyniadau a wneir i 'ddiwallu anghenion economaidd ac anghenion y farchnad, 3.3.1) yn rhoi'r dysgwr neu'r ymgeisydd dan anfantais. |
| A oes polisïau eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn? | Nac oes. | |
| **Casgliad** | Diwygio a pharhau â'r polisi. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 27/05/2025 |

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 27/05/2025 |
| **Cymeradwywyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |

| **Ystyriaeth** | **Ymateb** | **Gofynion / camau rheoli arbennig** |
|---|---|---|
| Pa effeithiau cadarnhaol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg? | Mae bwrsariau'r Gymraeg ar gael i siaradwyr Cymraeg ar raglenni Addysg Uwch. | |
| Pa effeithiau negyddol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg? | Dim o gwbl. | |
| A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn? | Mae pedwar o'r 13 aelod o'r staff Cyllid yn siaradwyr Cymraeg rhugl a gallant weithredu'r polisi yn Gymraeg os oes angen.<br>Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, gall tîm cyfieithu mewnol y Grŵp ddarparu cefnogaeth (dogfennaeth ysgrifenedig neu wasanaethau cyfieithu ar y pryd). | |
| Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac erbyn pryd? | | |
| A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg/Strategaeth Iaith Grŵp Llandrillo Menai? | Ydi. | |
| **Casgliad** | Parhau â'r polisi. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 27/05/2025 |

**Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |
| **Cymeradwywyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Sut fydd y polisi hwn yn effeithio ar strategaeth gynaliadwyedd y Grŵp? | | |
| **Casgliad** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | | **Dyddiad:** | |